

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig Llywodraeth Cymru: adfer bioamrywiaeth

Hydref 2019



www.cynulliad.cymru

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol: www.cynulliad.cymru/SeneddNHAMG

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: **0300 200 6565**

E-bost: **SeneddNHAMG@cynulliad.cymru**

Twitter: **@SeneddNHAMG**

© **Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2019**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig Llywodraeth Cymru: adfer bioamrywiaeth

Hydref 2019



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 28 Mehefin 2016. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.cynulliad.cymru/SeneddNHAMG

Cadeirydd y Pwyllgor:



Mike Hedges AC
Llafur Cymru

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



Andrew RT Davies AC
Ceidwadwyr Cymreig



Llyr Gruffydd AC
Plaid Cymru



Neil Hamilton AC
UKIP Cymru



Jenny Rathbone AC
Llafur Cymru



Joyce Watson AC
Llafur Cymru

Roedd yr Aelodau a ganlyn hefyd yn aelodau o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn.



Gareth Bennett AC
UKIP Cymru



John Griffiths AC
Llafur Cymru



Helen Mary Jones AC
Plaid Cymru

Cynnwys

Rhagair y Cadeirydd.....	5
Argymhellion.....	6
Ein dull o weithredu.....	8
Cylch Gorchwyl.....	8
1. Y “Cynllun Ffermio Cynaliadwy” arfaethedig.....	9
Rheoli tir yn gynaliadwy.....	9
Cynllun taliad ffermio cynaliadwy.....	9
Maint y cynllun.....	10
Monitro effaith y cynllun arfaethedig.....	11
Ein barn ni.....	12
2. Gwasanaethau cyngori a chyngor.....	14
Ein barn ni.....	15
3. Fframwaith Rheoleiddio.....	17
Ein barn ni.....	17
4. Cyllid.....	19
Ein barn ni.....	20
Atodiad A: Ymatebion ysgrifenedig i’r ymgynghoriad.....	22
Atodiad B: Y rhai a roddodd dystiolaeth lafar.....	23

Rhagair y Cadeirydd

Mae graddfa a chyflymder y dirywiad mewn bioamrywiaeth yng Nghymru wir yn peri braw.

Mae'r gwaith ymchwil diweddaraf, a nodir yn yr Adroddiad ar Sefyllfa Byd Natur 2019, yn rhoi darlun llwm iawn. Mae llawer o rywogaethau yng Nghymru yn dirywio. Mae 666 o rywogaethau dan fgythiad o ddiflannu o Gymru ac mae 73 o rywogaethau eisoes wedi'u colli. Nid oes unrhyw gynefin wir yn wydn.

Rydym yn cytuno â Llywodraeth Cymru mai gwrthdroi dirywiad bioamrywiaeth yw un o heriau mwyaf ein hoes, ynghyd â newid yn yr hinsawdd a chynhyrchu bwyd cynaliadwy.

Ym mis Gorffennaf 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ail fersiwn o'i chynigion ar gyfer cymorth ffermio ar ôl i'r DU ymadael â'r UE, sef "Ffermio Cynaliadwy a'n Tir". Mae'r fersiwn hon yn cynnig y bydd "Cynllun Ffermio Cynaliadwy" yn elfen allweddol o'r trefniadau newydd.

Fel Pwyllgor, rydym eisoes wedi gwneud cryn dipyn o waith mewn perthynas â'r amrywiol gynigion am "gynllun nwyddau cyhoeddus" ar gyfer cymorth ffermio ar ôl Brexit. Ar gyfer y darn hwn o waith, roeddem am ystyried y cynigion yng nghyd-destun bioamrywiaeth.

Rydym yn credu y dylai adfer bioamrywiaeth, ynghyd â chanlyniadau cynaliadwy eraill, fod yn flaenoriaeth allweddol ar gyfer unrhyw gynllun newydd.

Mae gadael yr UE yn rhoi cyfle i ni ailfeddwl sut y gallwn ddefnyddio adnoddau i ategu'r canlyniadau cynaliadwy hyn. Mae'n gyfle y mae'n rhaid i ni achub arno os ydym am roi stop ar ddirywiad rhywogaethau a dechrau adfer bioamrywiaeth yng Nghymru.

Argymhellion

Argymhelliad 1. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod adfer bioamrywiaeth yn flaenoriaeth allweddol yn ei Chynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig. ... Tudalen 13

Argymhelliad 2. Dylai cynllun arfaethedig Llywodraeth Cymru gynnwys canlyniadau sy'n cael eu llywio gan y data a'r dystiolaeth ddiweddaraf ar fioamrywiaeth a dylai hefyd ganolbwyntio ar rywogaethau, cynefinoedd a thirwedd. Tudalen 13

Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru egluro sut y bydd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn gweithio ochr yn ochr â pholisïau a mentrau eraill sydd â'r nod o adfer bioamrywiaeth. Tudalen 13

Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth Cymru egluro sut y mae'n bwriadu monitro ac asesu effaith y cynllun mewn perthynas â bioamrywiaeth. Tudalen 13

Argymhelliad 5. Dylai Llywodraeth Cymru gynnal asesiad o'r adnoddau, gan gynnwys staff, y bydd eu hangen i ddarparu ei dull arfaethedig o ran gwasanaethau cynghori. Dylai'r asesiad hwn gynnwys rhagamcanion ar gyfer pum mlynedd gyntaf y cynllun. Tudalen 15

Argymhelliad 6. Dylai Llywodraeth Cymru egluro sut y mae'n bwriadu sicrhau bod digon o gynghorwyr sydd wedi'u hyfforddi'n briodol ar gael erbyn i'r cynllun arfaethedig gael ei lansio. Dylai Llywodraeth Cymru egluro a yw'n disgwyl i unrhyw sefydliad presennol ddarparu'r gwasanaeth cynghori. Tudalen 15

Argymhelliad 7. Dylai Llywodraeth Cymru egluro sut y bydd yn sicrhau bod defnyddwyr ei chynllun arfaethedig yn cael mynediad priodol at gyfleoedd hyfforddiant a datblygu sgiliau. Dylai hefyd nodi ei amcangyfrifon o'r costau yn sgil hyfforddiant o'r fath ac egluro sut y byddant yn cael eu talu. Tudalen 16

Argymhelliad 8. Dylai Llywodraeth Cymru roi manylion am sut y bydd yn "cadw ac egluro'r trefniadau presennol", yn y tymor byr, mewn perthynas â fframwaith rheoleiddio. Dylai hyn gynnwys esboniad o sut y bydd ei dull arfaethedig yn adfer bioamrywiaeth. Tudalen 18

Argymhelliad 9. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig yn gwobrwyo ffermwyr sydd eisoes yn dilyn arferion da. Tudalen 18

Argymhelliad 10. Rhaid i Lywodraeth Cymru daro cydbwysedd rhwng sicrhau bod y Cynllun yn hygyrch a hefyd yn ddigon uchelgeisiol i adfer bioamrywiaeth. Dylid penderfynu ble i bennu'r llinell sylfaen reoleiddio ar sail tystiolaeth.

..... Tudalen 18

Argymhelliad 11. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi ei hymateb i adolygiad yr Arglwydd Bew o'r drefn o ran dyrannu cymorth ffermio yn y DU hyd at 2020.

..... Tudalen 21

Argymhelliad 12. Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar y trafodaethau rhyng-lywodraethol diweddaraf ynghylch dod o hyd i fecanwaith cynaliadwy i ddyrannu cymorth ffermio ar ôl 2020. Tudalen 21

Ein dull o weithredu

- 1.** Cynhaliodd y Pwyllgor ymchwiliad byr i fioamrywiaeth yng nghyd-destun fframwaith arfaethedig Llywodraeth Cymru ar gyfer cymorth ffermio ar ôl i'r DU ymadael â'r UE.
- 2.** Casglodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar ac ysgrifenedig yn dilyn cyhoeddi cynigion ymgynghori cychwynnol Llywodraeth Cymru ar gymorth amaethyddol yn y dyfodol, "Brexit a'n Tir".
- 3.** Cyn cwblhau ei hadroddiad, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ail fersiwn o'i chynigion, "Ffermio Cynaliadwy a'n Tir" (Gorffennaf 2019) ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus. Mae'r fersiwn hon yn nodi sawl newid i'r dull gweithredu, gan gynnwys uno dau gynllun arfaethedig yn un "Cynllun Ffermio Cynaliadwy".
- 4.** Cytunodd y Pwyllgor fod y dystiolaeth a glywodd mewn perthynas â chynigion cychwynnol Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn berthnasol ac y dylid newid eu ffocws er mwyn adlewyrchu'r cynigion yn yr ymgynghoriad diweddaraf.

Cylch Gorchwyl

- 5.** Roedd cylch gorchwyl ymchwiliad y Pwyllgor fel a ganlyn:
 - Sut y gellid defnyddio cynllun Nwyddau Cyhoeddus arfaethedig Llywodraeth Cymru, a nodwyd yn Brexit a'n Tir, i adfer bioamrywiaeth;
 - Sut y gellid cymhwyso polisiâu a deddfwriaeth amrywiol presennol Llywodraeth Cymru ar gyfer adfer bioamrywiaeth wrth ddylunio a gweithredu'r cynllun Nwyddau Cyhoeddus arfaethedig; a
 - Pha wersi y gellir eu dysgu o Raglen Monitro a Gwerthuso Glastir i sicrhau monitro a gwerthuso cynlluniau yn effeithiol i gefnogi adfer bioamrywiaeth? Sut y dylid cynllunio a gweithredu'r Rhaglen newydd ar gyfer Monitro a Modelu'r Amgylchedd a Materion Gwledig yn effeithiol at y diben hwn?
- 6.** Mae rhestr o'r rhai a gyfrannodd at waith y Pwyllgor wedi'i chynnwys yn Atodiad yr Adroddiad hwn.

1. Y “Cynllun Ffermio Cynaliadwy” arfaethedig

- 7.** Rhoddir diffiniad o fioamrywiaeth yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (Deddf yr Amgylchedd), sef “amrywiaeth organeddau byw, boed ar lefel geneteg, rhywogaeth neu ecosystem”.
- 8.** Yn ei dogfen ymgynghori, Ffermio Cynaliadwy a’n Tir, dywed Llywodraeth Cymru mai “gwyrddroi’r dirywiad mewn bioamrywiaeth”, ynghyd â newid yn yr hinsawdd a chynhyrchu bwyd yn gynaliadwy, yw un o heriau mwyaf ein hoes. Mae’n dweud y dylid defnyddio cymorth ffermio i wobrwyo’r ffermwyr hynny sy’n gweithredu i gyflawni’r heriau hyn ac mae’n nodi cyfres o gynigion i wneud hynny.

Rheoli tir yn gynaliadwy

- 9.** Mae Ffermio Cynaliadwy a’n Tir yn dweud y bydd dull cyffredinol Llywodraeth Cymru o ddarparu cymorth yn y dyfodol yn seiliedig ar yr amcan o “reoli tir yn gynaliadwy”. Mae’n dweud bod hwn “yn gysyniad sydd wedi’i ddiffinio ar lefel ryngwladol”, sy’n ymwneud â “defnyddio tir cynhyrchu heb aberthu’i botensial tymor hir i gynhyrchu na’i allu i gynnal gwasanaethau amgylcheddol pwysig”.
- 10.** Mae Llywodraeth Cymru yn nodi bod “Bioamrywiaeth” yn gategori o fanteision sy’n deillio o’i dull rheoli tir cynaliadwy. Mae’n disgrifio gwerth bioamrywiaeth i gymdeithas, ynghyd â’i werth cynhenid, gan gynnwys “darparu amrywiaeth fyw o gynefinoedd a rhywogaethau, sy’n sylfaen i apêl tirwedd Cymru i ymwelwyr, yn ogystal â dod â manteision i’n llesiant ein hunan trwy’n cysylltiad â natur”. Mae’n cydnabod gwerth bioamrywiaeth ar gyfer “gwasanaethau ecosystem” eraill fel priddoedd iach, dal a storio carbon a hidlo dŵr.

Cynllun taliad ffermio cynaliadwy

- 11.** Mae Ffermio Cynaliadwy a’n Tir yn esbonio y bydd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig yn “gwobrwyo ffermwyr am ganlyniadau Rheoli Tir yn Gynaliadwy (SLM)”.
- 12.** Yn gyffredinol, roedd rhanddeiliaid yn frwdfrydig, mewn egwyddor, am gynllun a fyddai’n canolbwyntio ar gyflenwi nwyddau cyhoeddus ac yn seiliedig ar ganlyniadau. Fodd bynnag, pwysleisiodd rhanddeiliaid y dylai unrhyw gynllun newydd ganolbwyntio ar adfer bioamrywiaeth, ac nid ar reoli ei ddirywiad. Awgrymodd sawl un na chafodd y Polisi Amaethyddiaeth Cyffredin fawr ddim llwyddiant wrth wyrddroi dirywiad bioamrywiaeth a byddai’r cynllun newydd yn gyfle i ddyfeisio dull newydd sy’n canolbwyntio ar fynd i’r afael â hyn.

- 13.** Fodd bynnag, roedd sawl un yn cydnabod y gall fod yn heriol datblygu cynlluniau sy'n cynnwys canlyniadau sy'n ymwneud â bioamrywiaeth. Er enghraifft, dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru y byddai presenoldeb rhywogaethau yn ganlyniad y byddai'n anodd ei fesur a'i wobrwyo'n deg, oherwydd y gall coloneiddio fod y tu hwnt i reolaeth rheolwyr tir. Awgrymodd Cyfoeth Naturiol Cymru mai un ateb fyddai defnyddio dulliau amgen, fel cyflwr y cynefin, i fesur presenoldeb rhywogaethau. Roedd Lawrence Brooks o'r farn hefyd y byddai mesur cyflwr y cynefin yn ddull syml ond cadarn.
- 14.** Roedd rhanddeiliaid yn arbennig o gefnogol i ddefnyddio dulliau amgen i fesur canlyniadau a allai gymryd mwy o amser i ddwyn ffrwyth. Esboniodd Confor: "It may take us 10 years to come off the bottom of the bell curve for declining species. But if you encourage people to do the right thing, to farm in a sustainable, high-quality way, you will start to get those results, even if you can't quite measure them yet".
- 15.** Fodd bynnag, esboniodd RSPB Cymru fod cyfyngiadau i ddefnyddio dulliau amgen, fel mesur cyflwr y cynefin, er enghraifft y ffaith y gall 90 y cant o'ch cynefin fod yn iawn ar gyfer rhywogaethau, ond y gallai'r 10 y cant sy'n weddill fod yn hanfodol i lwyddiant. Ategodd Cymdeithas Ecolegol Prydain hyn, gan ddweud bod dealltwriaeth wael o fioleg rhywogaethau o dan gynlluniau amaeth-amgylchedd blaenorol fel bod opsiynau rheoli ar gyfer rhywogaethau penodol yn gyfyngedig i reoli cynefinoedd yn gyffredinol. Efallai na fydd hyn yn sicrhau'r canlyniadau penodol sydd o fudd i rywogaethau â blaenoriaeth.
- 16.** Pwysleisiodd sawl ymatebydd, er mwyn sicrhau newid ar y raddfa sydd ei hangen, y bydd angen i nifer sylweddol yn fwy o ffermwyr gymryd rhan yn y cynllun arfaethedig. Felly, bydd angen i'r cynllun arfaethedig fod yn hawdd ei ddeall ac yn hygyrch. Rhybuddiodd Ecology Planning: "the biggest problem with the current scheme is people don't want to go onto it because the rulebook is this thick and there's a lot to read". Pwysleisiodd sawl rhanddeiliad yr angen am wasanaethau cynghori o safon uchel. Mae'r Pwyllgor yn ystyried y mater hwn ymhellach ym Mhennod 2.

Maint y cynllun

- 17.** Dywedodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro y dylai maint, neu raddfa, y dull gweithredu ddibynnu ar bob canlyniad a ddymunir. Gallai'r hyn a gaiff ei flaenoriaethu fod "yn rhywogaeth, gallai fe fod yn gynefin, gallai fe fod yn dirwedd". Esboniodd:

“Enghraifft dda efallai fyddai mewn cwm lle, dywedwn ni, mae gwarchod sgwarnogod yn nod y mae pob un yn cytuno â fe. Hynny yw, byddai'r cynllun gwarchodaeth yna'n gweithredu ar y fferm unigol, ond hefyd yn gweithredu dros ardal gyfan, a byddai gofyn i berchnogion tir gydweithredu, sy'n nod yn ei hunan. Bydden nhw'n monitro, yn cydweithio, yn cydweithredu, a byddai'r ardal gron yna yn uno yn y nod hwinnw. Byddai yna nodau gwahanol wedyn a chanlyniadau gwahanol.”

18. Roedd RSPB Cymru yn cytuno: “the issue of scale...depends on the public good you're delivering”. Gan drafod rhai rhywogaethau symudol, dywedodd y byddai angen dull gweithredu ar raddfa fwy a soniodd am y gyflinir mewn ardal yng Ngogledd Cymru, lle mae rhai o'r adar hynny yn defnyddio'r dirwedd ac yn teithio sawl cilometr mewn diwrnod.

19. Awgrymodd rhanddeiliaid y gellid defnyddio datganiadau ardal a'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol¹ i ddewis safleoedd priodol wrth dargedu cynlluniau. Dywedodd Cyswllt Amgylchedd Cymru y gallai datganiadau ardal dynnu sylw, o bosibl, at rai ardaloedd penodol ar gyfer adfer cynefinoedd, adfer rhywogaethau, a gwella cyflwr y safle.

Monitro effaith y cynllun arfaethedig

20. Ar hyn o bryd, mae Rhaglen Monitro a Gwerthuso Glastir yn asesu effeithiau amgylcheddol Glastir, sef cynllun amaeth-amgylchedd Cymru. Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi caffael Rhaglen Monitro a Modelu'r Amgylchedd a Materion Gwledig i adeiladu ar Raglen Monitro a Gwerthuso Glastir.

21. Bu'r Pwyllgor yn trafod gyda rhanddeiliaid sut y gellid monitro effeithiolrwydd y cynllun arfaethedig yn y dyfodol. Galwodd rhai rhanddeiliaid am dargedau sy'n anelu'n benodol at adfer bioamrywiaeth. Tynnodd eraill sylw at yr heriau wrth fonitro effaith y cynllun ar fioamrywiaeth, o ystyried yr amserlenni hir a chymhlethdod systemau ecolegol.

22. Dywedodd Cymdeithas Ecolegol Prydain y byddai angen i unrhyw ddull monitro newydd adlewyrchu'r oedi posibl rhwng gweithred a'i chanlyniadau. Un o agweddau cadarnhaol Rhaglen Monitro a Gwerthuso Glastir oedd y ffaith bod arolygon yn cael eu hailadrodd fel y gallech weld tueddiadau dros amser. Fodd

¹ O dan Ddeddf yr Amgylchedd, mae'n ofynnol i Cyfoeth Naturiol Cymru lunio'r Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol (yr Adroddiad). Mae'n rhaid diweddarau'r Adroddiad bob pum mlynedd i roi manylion am gyflwr presennol yr amgylchedd. Cyhoeddwyd yr Adroddiad cyntaf ym mis Medi 2016. Mae'r Adroddiad yn asesu'r nifer bresennol o adnoddau naturiol yng Nghymru, a'u cyflwr, ac mae'n sylfaen dystiolaeth hanfodol ar gyfer adfer adnoddau naturiol Cymru.

bynag, un o wendidau'r rhaglen fonitro honno oedd y ffaith nad oedd yn monitro rhywogaethau prin. Byddai hon yn agwedd bwysig ar y dull monitro: "sometimes, you can create the right habitat, but the species populations don't increase...you need to be monitoring those species specifically to understand whether you're actually delivering".

23. Credai Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri y dylai hunanarfarnu gan ffermwyr chwarae rhan yn y broses fonitro. Byddai hyn yn annog teimladau o berchnogaeth a hyder ymhlith ffermwyr a rheolwyr tir sy'n cymryd rhan yn y cynllun.

Ein barn ni

Mae graddfa a chyflymder y dirywiad mewn bioamrywiaeth yng Nghymru wir yn peri braw. Dangosodd yr Adroddiad ar Sefyllfa Byd Natur, a luniwyd gan sefydliadau amgylcheddol, ddirywiad o 57 y cant o rywogaethau planhigion gwyllt, 60 y cant o ieir bach yr haf a 40 y cant o adar yng Nghymru rhwng 1970 a 2013. Daeth adroddiad Cyfoeth Naturiol Cymru ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol i'r casgliad bod llawer o rywogaethau yng Nghymru yn dirywio ac nad oes unrhyw gynefin yn wirioneddol gydnerth.

Rydym yn cytuno â Llywodraeth Cymru mai gwrthdroi dirywiad bioamrywiaeth yw un o heriau mwyaf ein hoes. Credwn y dylai Llywodraeth Cymru ddatgan yn benodol bod *adfer* bioamrywiaeth yn un o flaenoriaethau allweddol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Credwn fod hwn yn gyfle unwaith mewn oes i sianelu adnoddau at fioamrywiaeth a rhaid i Lywodraeth Cymru achub ar y cyfle hwnnw. Rhaid i Lywodraeth Cymru ddefnyddio ei chynllun arfaethedig i gyfeirio cyllid ac adnoddau i ateb yr her enfawr hon. Disgwylwn y dylai camau i adfer bioamrywiaeth ategu a chryfhau agweddau eraill ar ddatblygu cynaliadwy.

Rydym yn cytuno â rhanddeiliaid ynghylch yr angen i ystyried sut y gall y cynllun weithio ar sail leol, fesul fferm, ond gan sicrhau canlyniadau o ran tirwedd ar yr un pryd yn ogystal â chanlyniadau ar lefel genedlaethol. Credwn y bydd hyn yn heriol, ac y gallai arwain at gynllun cymhleth iawn. Nid yw'n glir eto sut y bydd y cynllun arfaethedig yn annog ffermwyr i weithio gyda'i gilydd i gyflawni rhai o'r camau sydd eu hangen ar lefel tirwedd. Bydd cydweithrediad o'r fath yn hanfodol i'r cynllun gyflawni'r canlyniadau bioamrywiaeth a ddymunir, fel cynnydd yn y boblogaeth rhywogaethau â blaenoriaeth.

Rydym yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru yn cynnig cynllun bellach sydd, i bob pwrpas, yn gynllun hybrid. Rydym yn croesawu defnyddio dulliau amgen o fesur cynnydd, fel creu cynefinoedd, fel dull pragmatig sy'n cydnabod yr heriau wrth wobrwyo ffermwyr am ganlyniadau penodol.

Credwn y bydd hi'n heriol monitro effeithiolrwydd cyffredinol y cynllun a'r canlyniadau a gyflawnir, ond rhaid rhoi sylw iddynt er mwyn gwneud yn siŵr ei fod yn sicrhau gwerth am arian. Dylai trefn fonitro yn y dyfodol gynnwys targedau penodol sy'n gysylltiedig â bioamrywiaeth a'r gwaith o'i hadfer. Wrth ddatblygu rhaglen fonitro, rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau y rhoddir sylw i'r pryderon a godwyd gan gyfranogwyr ynghylch Rhaglen Monitro a Gwerthuso Glastir.

Argymhelliad 1. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod adfer bioamrywiaeth yn flaenoriaeth allweddol yn ei Chynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig.

Argymhelliad 2. Dylai cynllun arfaethedig Llywodraeth Cymru gynnwys canlyniadau sy'n cael eu llywio gan y data a'r dystiolaeth ddiweddaraf ar fioamrywiaeth a dylai hefyd ganolbwyntio ar rywogaethau, cynefinoedd a thirwedd.

Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru egluro sut y bydd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn gweithio ochr yn ochr â pholisïau a mentrau eraill sydd â'r nod o adfer bioamrywiaeth.

Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth Cymru egluro sut y mae'n bwriadu monitro ac asesu effaith y cynllun mewn perthynas â bioamrywiaeth.

2. Gwasanaethau cyngori a chyngor

24. Mae “Ffermio Cynaliadwy a’n Tir” yn cynnig gwasanaeth cyngori “sy’n ei wneud yn haws i ffermwyr ymuno â’r cynllun, yn sicrhau bod ganddynt y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt i ddarparu canlyniadau a chynnig cymorth i ddatblygu busnesau fferm mwy cystadleuol a chydnerth”.

25. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yn ei dogfen ymgynghori bod yn rhaid taro cydbwysedd rhwng maint y gwasanaeth cyngori a ddarperir a chostau. Dywed:

“Ar un llaw, dylai mwy o gefnogaeth arwain at ganlyniadau gwell a theilwra cyngor yn well i ffermydd penodol. Ar y llaw arall, byddai cynnig mwy o gefnogaeth yn fwy costus a byddai’n golygu bod perygl anfon cyllid pwysig oddi wrth ffermwyr.”

26. Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau y bydd yn ysgwyddo costau gwasanaethau cyngori sy’n cefnogi unrhyw gynllun newydd.

27. Pwysleisiodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro pa mor bwysig fydd y buddsoddiad cychwynnol gan Lywodraeth Cymru i sicrhau bod y gwasanaethau cyngori yn briodol. Yn y gorffennol, cafodd y “wasgfa ar gostau gweinyddu cynlluniau amaeth-amgylcheddol” effaith niweidiol ar y cyngor a ddarparwyd ac, yn ei dro, cafodd hynny effaith negyddol ar gyflawni’r cynlluniau.

28. Ategwyd hyn gan Gymdeithas Ecolegol Prydain, a nododd fod y buddsoddiad cychwynnol yn hanfodol er mwyn cael gwerth am arian o’r cynllun. Pwysleisiodd RSPB Cymru yr angen i fuddsoddi mewn cyngor i gefnogi’r elfennau mwy technegol wrth gyflawni’r cynllun.

29. Roedd rhanddeiliaid yn credu y byddai’n bwysig darparu cyngor ac y byddai angen teilwra’r cyngor hwnnw. Dywedodd Cymdeithas Ecolegol Prydain fod hyn yn galw am: “Basic advice for basic work, complex local advice for tailored work”.

30. Roedd rhanddeiliaid yn cydnabod bod siawns y gallai’r cynllun arfaethedig, a allai gynnwys llawer iawn o ganlyniadau, fod yn gymhleth iawn. Gwnaethant bwysleisio’r angen am wybodaeth ac arbenigedd lleol wrth roi cyngor, yn enwedig mewn perthynas â bioamrywiaeth. Byddai cyngor “ar y fferm” yn hollbwysig, ond nid oedd hynny’n rhan o gynlluniau tebyg yn y gorffennol.

31. Nododd rhai rhanddeiliaid fod cyngor ar gael o sawl ffynhonnell yn y gorffennol ac nad oedd ffermwyr wedi bod yn hyderus ei fod yn ddibynadwy. Byddai'n rhaid mynd i'r afael â hyn os yw'r cynllun arfaethedig am lwyddo.

Ein barn ni

Fel rydym wedi egluro mewn adroddiadau blaenorol ar y pwnc hwn, rydym ni'n credu y bydd hi'n hanfodol darparu cyngor arbenigol i gyfranogwyr y cynllun. Rydym yn cydnabod bod gwasanaethau cynghori a oedd yn gysylltiedig â chynlluniau tebyg yn y gorffennol wedi profi heriau penodol. Bydd angen i Lywodraeth Cymru fynd i'r afael â hyn os yw'n disgwyl i'w chynllun arfaethedig fod yn llwyddiant.

Mae dull arfaethedig Llywodraeth Cymru o ymdrin â gwasanaethau cynghori yn edrych yn uchelgeisiol, gyda phob fferm yn cael ei chynllun ei hun, a gaiff ei ddatblygu â chymorth cynghorydd. Rydym yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru na fydd yn rhaid talu costau gwasanaethau cynghori o'r arian sydd ar gael ar gyfer cymorth ffermio. Rydym hefyd yn cydnabod yr angen i daro cydbwysedd rhwng darparu gwasanaeth cynghori rhagorol a chostau darparu'r gwasanaeth hwnnw. Fodd bynnag, gallai fod angen llawer o adnoddau i ddarparu'r dull gweithredu arfaethedig a chredwn y dylai Llywodraeth Cymru gynnal asesiad llawn o gostau darparu'r dull hwnnw.

Bydd angen i'r dull fod yn hyblyg, oherwydd gall yr angen am gyngor ymhlith defnyddwyr newid wrth i ddealltwriaeth a phrofiad o'r cynllun arfaethedig wella. Felly, fel rhan o'i gwaith i asesu goblygiadau ariannol ei chynigion, rhaid i Lywodraeth Cymru ystyried i ba raddau y dylid mynd ati i fuddsoddi mwy mewn gwasanaethau cynghori yn ystod blynyddoedd cyntaf y cynllun.

Yn ogystal â gwasanaethau cynghori, mae'n debygol y bydd angen cefnogaeth ar lawer o ffermwyr sy'n defnyddio'r cynllun i ddatblygu sgiliau mewn meysydd newydd. Bydd angen i'r cymorth hyfforddiant hwn fod ar waith pan gaiff y cynllun arfaethedig ei lansio ac nid yw'n glir eto pa effaith y bydd hynny'n ei chael ar adnoddau.

Argymhelliad 5. Dylai Llywodraeth Cymru gynnal asesiad o'r adnoddau, gan gynnwys staff, y bydd eu hangen i ddarparu ei dull arfaethedig o ran gwasanaethau cynghori. Dylai'r asesiad hwn gynnwys rhagamcanion ar gyfer pum mlynedd gyntaf y cynllun.

Argymhelliad 6. Dylai Llywodraeth Cymru egluro sut y mae'n bwriadu sicrhau bod digon o gynghorwyr sydd wedi'u hyfforddi'n briodol ar gael erbyn i'r cynllun

arfaethedig gael ei lansio. Dylai Llywodraeth Cymru egluro a yw'n disgwyl i unrhyw sefydliad presennol ddarparu'r gwasanaeth cynghori.

Argymhelliad 7. Dylai Llywodraeth Cymru egluro sut y bydd yn sicrhau bod defnyddwyr ei chynllun arfaethedig yn cael mynediad priodol at gyfleoedd hyfforddiant a datblygu sgiliau. Dylai hefyd nodi ei amcangyfrifon o'r costau yn sgil hyfforddiant o'r fath ac egluro sut y byddant yn cael eu talu.

3. Fframwaith Rheoleiddio

32. Mae “Ffermio Cynaliadwy a’n Tir” yn nodi bod cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer “fframwaith rheoleiddio tryloyw, cadarn” yn cynnwys “safonau gofynnol clir, monitro clyfar a chymau gorfodi cymesur”.

33. Yn ei dogfen ymgynghori, dywed Llywodraeth Cymru y bydd “datblygu a gweithredu” fframwaith newydd “yn cymryd sawl blwyddyn”. Felly, mae’n nodi cynigion tymor byr a chynigion hirdymor:

“Y bwriad yn y tymor byr yw cadw ac egluro’r trefniadau presennol. Yn ystod y cyfnod hwn, byddwn yn ymgynghori ymhellach ac yn cysylltu â rhanddeiliaid i benderfynu ar unrhyw newidiadau hirdymor. Bydd Bil yr Amgylchedd (Cymru) sydd yn yr arfaeth yn rhoi cyfle i ddeddfu, ac felly byddai angen i unrhyw gynigion rheoleiddiol gael eu cynnwys yn y Papur Gwyn ar bolisi a ddaw cyn hynny.”

34. Roedd rhanddeiliaid yn cefnogi’r egwyddor o bennu llinell sylfaen mewn deddfwriaeth (regulatory floor). Esboniodd Dŵr Cymru fod angen gwneud hyn er mwyn osgoi sefyllfa lle rydym ni’n talu llygrwyr i beidio â llygru, a bod angen rhai rheoliadau sylfaenol fel rhan o’r safon er mwyn adeiladu ymhellach ar hynny.

35. Dywedodd rhanddeiliaid y dylid penderfynu ble i bennu’r llinell sylfaen ar sail tystiolaeth a data. Byddai’n hanfodol cael dealltwriaeth lawn o’r llinell sylfaen hon hefyd er mwyn monitro’r cynllun yn effeithiol.

36. Nododd sawl rhanddeiliad fod angen sicrhau bod y cynllun arfaethedig yn gwobrwyo gwaith rheoli cadwraeth hanesyddol. Dywedodd RSPB Cymru: “We certainly wouldn’t want to see a scheme or a future programme that doesn’t reward existing good management”.

Ein barn ni

Rydym yn llwyr gefnogi’r egwyddor o gael llinell sylfaen reoleiddio. At hynny, credwn yn gryf y dylai cymorth ariannol fod yn seiliedig ar gyflawni canlyniadau sy’n rhagori ar y llinell sylfaen honno.

Fodd bynnag, rydym yn cydnabod na ddylid peri anfantais i’r ffermwyr hynny sydd wedi bod yn ffermio mewn modd cynaliadwy ers nifer o flynyddoedd. Rydym yn cytuno â rhanddeiliaid y dylid gwobrwyo’r rheini sydd eisoes yn arfer dulliau rheoli da. Nid yw hyn yn gwrthdaro â’r egwyddor o gyflawni canlyniadau

sy'n rhagori ar y llinell sylfaen reoleiddio yn ein barn ni, ac rydym yn falch bod Llywodraeth Cymru wedi mynd i'r afael â hyn yn ei hymgyngoriad.

Mae gennym rai pryderon ynghylch cynnig Llywodraeth Cymru i greu Cynllun Ffermio Cynaliadwy sy'n hygyrch i bawb. Er ein bod yn cydnabod bod hyn yn mynd i'r afael â phryder a fynegwyd gennym yn y gorffennol – sef y gallai cynllun sy'n seiliedig ar wobrau am nwyddau cyhoeddus fod yn annheg a chreu “loteri cod post” – mae rhai risgiau'n gysylltiedig â'r dull arfaethedig. Gallai sicrhau bod y cynllun arfaethedig yn hygyrch i bawb arwain, yn anfwriadol, at ostwng y safon reoleiddio ofynnol, fel bod canlyniadau'r cynllun arfaethedig yn llai uchelgeisiol.

Byddwn ni am glywed maes o law sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu mynd i'r afael â'r tensiwn posibl hwn. Rydym yn croesawu ei hymrwymiad i ymgynghori ymhellach ar y fframwaith rheoleiddio.

Argymhelliad 8. Dylai Llywodraeth Cymru roi manylion am sut y bydd yn “cadw ac egluro'r trefniadau presennol”, yn y tymor byr, mewn perthynas â fframwaith rheoleiddio. Dylai hyn gynnwys esboniad o sut y bydd ei dull arfaethedig yn adfer bioamrywiaeth.

Argymhelliad 9. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig yn gwobrwyo ffermwyr sydd eisoes yn dilyn arferion da.

Argymhelliad 10. Rhaid i Lywodraeth Cymru daro cydbwysedd rhwng sicrhau bod y Cynllun yn hygyrch a hefyd yn ddigon uchelgeisiol i adfer bioamrywiaeth. Dylid penderfynu ble i bennu'r llinell sylfaen reoleiddio ar sail tystiolaeth.

4. Cyllid

37. Mae ymgynghoriad Ffermio Cynaliadwy a'n Tir yn trafod trefniadau cyllido ar gyfer y cynllun arfaethedig.

38. Yn ei dogfen ymgynghori, mae Llywodraeth Cymru yn egluro ei dealltwriaeth o'r sefyllfa o ran ariannu amaethyddiaeth ar ôl i'r DU adael yr UE. Dywed fod pryderon sylweddol ynghylch y gyllideb sydd ar gael ar gyfer cymorth amaethyddol yn y dyfodol. Mae Llywodraeth y DU wedi rhoi sicrwydd y bydd cyllid cymorth ffermio yn cael ei amddiffyn hyd at 2022; nid yw'n glir beth fydd y trefniadau cyllido wedi hynny.

39. Mae'r ddogfen ymgynghori yn cadarnhau:

“Pan fydd arian yn cael ei ddychwelyd, byddwn yn gwneud yn siŵr bod yr arian yn cael ei wario ar ffermio, coedwigaeth a mathau eraill o reoli tir ac nid at ddibenion eraill.”

40. Mae'n mynd ymlaen i egluro, unwaith y bydd mwy yn hysbys am y gyllideb yn y dyfodol, bydd angen gwneud penderfyniad ynglŷn â rhannu arian “rhwng y gwahanol elfennau o gymorth”. Bydd hyn yn cynnwys penderfyniad ynghylch:

“y cydbwysedd priodol rhwng arian ar gyfer ffermwyr, coedwigwyr a rheolwyr tir eraill yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a chymorth ar gyfer y diwydiant ehangach a'r gadwyn gyflenwi; a

pa elfennau o'r Rhaglen Datblygu Gwledig a ddylai gael eu cynnwys yn y trefniadau newydd ar gyfer cymorth.”

41. Dywedodd sawl rhanddeiliad eu bod yn disgwyl i'r lefelau cyllid ar gyfer amaethyddiaeth gael eu cynnal ar ôl i'r DU adael yr UE, o leiaf yn y tymor byr. Dywedodd NFU Cymru ei fod wedi clywed na ddylai Cymru dderbyn ceiniog yn llai, ac esboniodd y dylai hynny olygu cyfanswm cyllideb colofn 1 a chyfanswm cyllideb colofn 2.

42. Nododd rhanddeiliaid hefyd fod un o'r ffynonellau cyllid hanfodol presennol ar gyfer natur wedi'i beryglu oherwydd Brexit, sef Cronfa Natur LIFE yr UE, sy'n talu tua £20 miliwn y flwyddyn i'r DU ar hyn o bryd.

43. Roedd rhanddeiliaid yn cydnabod y byddai angen lefelau sylweddol o gyllid i adfer bioamrywiaeth. Dywedodd RSPB Cymru fod gwaith yr oedd wedi'i wneud gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac Ymddiriedolaethau Bywyd Gwylt wedi nodi: “Wales would require an annual amount—something along the lines of £210

million—to deliver environmental priorities and strategies. Much of that would be through payment to land managers to deliver public goods”.

44. Ystyriodd y Pwyllgor y rôl bosibl y gallai buddsoddiad preifat ei chwarae. Nodwyd ei bod hi'n arferol i lawer o sefydliadau bywyd gwyllt a'r amgylchedd fynd ati i ddenu buddsoddiad o'r fath. Cydnabu RSPB Cymru fod cyfleoedd i ddenu cyllid o'r tu allan, yn ogystal â chyllid cyhoeddus, a bod enghreifftiau o'r RSPB a sefydliadau anllywodraethol eraill yn gweithio gyda chwmnïau dŵr a chwmnïau cyfleustodau yn y DU.

45. Ar 6 Medi 2019, cyhoeddwyd adroddiad yn dilyn adolygiad o'r drefn o ran dosbarthu cyllid ar gyfer cymorth ffermio ledled y DU rhwng 2020 a 2022. Comisiynwyd yr adolygiad gan Lywodraeth y DU ac fe'i harweiniwyd gan yr Arglwydd Bew. Awgrymwyd yn yr adroddiad:

“UK Government Ministers consider engaging collectively with their devolved administration counterparts to agree some principles for the initial 2022 intra-UK allocation of agriculture funding, whatever the mechanism for managing the consequences of subsequent changes to that funding.”

46. Aeth yr adroddiad ymlaen i hyrwyddo cydnabyddiaeth, fel rhan o'r egwyddorion hynny, o werth cymdeithasol ffermio mynydd yn benodol a'r heriau sy'n wynebu'r rhai sy'n gwneud hynny, a chydabod y potensial i gyflenwi nwyddau cyhoeddus amgylcheddol ochr yn ochr â chynhyrchu bwyd cynaliadwy, ble bynnag y mae potensial i wneud hynny yn y DU.

Ein barn ni

O ystyried maint yr her, gwyddom y bydd angen buddsoddiad sylweddol i adfer bioamrywiaeth. Dyna pam rydym ni'n credu bod angen i'r holl gyllid weithio mewn modd cydategol. Fel y nodwyd gennym mewn adroddiadau blaenorol, rydym yn cytuno â rhanddeiliaid y dylid anrhydeddu'r ymrwymïadau eang a wnaed yn ystod ymgyrch y refferendwm ynghylch cyllid ar gyfer cymorth ffermio yn y dyfodol.

Credwn y bydd angen trefniadau newydd, ar ôl i ni adael yr UE, i sicrhau bod cyllid cymorth ffermio yn cael ei ddyrannu'n deg ledled y DU. Bydd angen i drefniadau yn y dyfodol fod yn ddigon hyblyg i ymateb i newidiadau mewn amgylchiadau. Nodwn argymhellion adroddiad yr Arglwydd Bew ac edrychwn ymlaen at ymatebion Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ymrwymïadau gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â chyllidebau amflwyddyn wedi'u neilltuo. Credwn fod angen sicrwydd ynghylch trefniadau cyllido yn y dyfodol i sicrhau bod gan ffermwyr ffydd yng nghynaliadwyedd hirdymor y cynllun arfaethedig, a gallai hynny yn ei dro wella cyfranogiad.

Fodd bynnag, rydym yn cwestiynu i ba raddau y gall ymrwymïad o'r fath fod yn gynaliadwy, yn enwedig gan nad yw'n hysbys faint o gyllid fydd ar gael i Lywodraeth Cymru ar ôl i'r DU adael yr UE.

Argymhelliad 11. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi ei hymateb i adolygiad yr Arglwydd Bew o'r drefn o ran dyrannu cymorth ffermio yn y DU hyd at 2020.

Argymhelliad 12. Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar y trafodaethau rhyng-lywodraethol diweddaraf ynghylch dod o hyd i fecanwaith cynaliadwy i ddyrannu cymorth ffermio ar ôl 2020.

Atodiad A: Ymatebion ysgrifenedig i'r ymgynghoriad

Cyferiad	Sefydliad
BIO01	Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
BIO02	Paul Sinnadurai
BIO03	Sefydliad Siartredig Ecoleg a Rheolaeth Amgylcheddol (CIEEM)
BIO04	Grŵp Coetiroedd Cymunedol
BIO05	Parciau Cenedlaethol Cymru
BIO06	Dŵr Cymru
BIO07	Cymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain (BASC)
BIO08	Laurence Brooks, Ecology Planning - Ymgynghorydd Ecoleg
BIO09	Cymdeithas Ecolegol Prydain
BIO10	Glandŵr Cymru - Yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd yng Nghymru
BIO11	Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad (CLA Cymru)
BIO12	Coed Cadw - Woodland Trust
BIO13	Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB) Cymru
BIO14	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
BIO15	Cyswllt Amgylchedd Cymru
BIO16	Cyfoeth Naturiol Cymru
BIO17	Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (NFU Cymru)
BIO18	Ymddiriedolaethau Natur Cymru
BIO19	Confor
BIO20	Y Rhwydwaith Ffermio Natur-Gyfeillgar
BIO21	Y Grŵp Cynghori ar Ffermio a Bywyd Gwyllt
BIO22	Undeb Amaethwyr Cymru

Atodiad B: Y rhai a roddodd dystiolaeth lafar

Dyddiad	Enw a Sefydliad
07 Chwefror 2019	Annie Smith, Cyswllt Amgylchedd Cymru Arfon Williams, Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB Cymru) Anthony Geddes, CONFOR Rachel Lewis-Davies, Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (NFU Cymru) Charlotte Priddy, Undeb Amaethwyr Cymru (FUW)
21 Chwefror 2019	Rachel Sharp, Ymddiriedolaethau Natur Cymru Jerry Langford, Coed Cadw Laurence Brooks, Ecology Planning Robert Vaughan, Cyfoeth Naturiol Cymru Steve Wilson, Dŵr Cymru Emyr Williams, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri Geraint Jones, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro Brendan Costelloe, Cymdeithas Ecolegol Prydain